


# CYNGOR TREF PORTHMADOG



## COFNODION PWYLLGOR EIDDO A DATBLYGU Gorffennaf 25ain 2023

**Presennol :-** Cynghorwyr :- Alwyn Gruffydd, Gwilym Jones, Connor Westwood, John Gwynedd Roberts, Michael Roberts, Aled Griffith ( Cadeirydd)  
Marian Roberts ( Clerc)

**Absennol :-** Llinos Murphy

**1. Ymddiheuriadau:-** Cyng Dr Melfyn Edwards

### 2. Llwybrau

Cafwyd adroddiad gan y Clerc fod mainc goffa John Charles wedi cael ei symud o'i lleoliad ar lwybr Cob Crwn. Roedd hyn yn dilyn penderfyniad yng nghyfarfod llawn 11.7.23 i wneud cais i Gyngor Gwynedd i atgyweirio'r fainc. Roedd y Clerc wedi derbyn ebost gan Gwyn Lloyd Evans, Arweinydd Tîm Mynediad Adran Amgylchedd Cyngor Gwynedd i ddweud fod y fainc wedi dirywio i'r fath raddau na ellid ei hatgyweirio a'i bod wedi ei symud er lles diogelwch y cyhoedd. Bydd yr ebost hwn yng ngohebiaeth cyfarfod 12.9.23.

➤ **Cyng Aled Griffith – Cynnig gofyn i Gyngor Gwynedd ddifa'r Japanese Knotweed sydd yn gorlifo i'r llwybr tu ôl i Premier Inn.**

Cyfeirwyd at sawl llwybr yn yr ardal sydd dan ofal Cyngor Gwynedd sydd angen eu cynnal a'u gwella.

**Penderfynwyd :-** gweithredu ar gynnis Cyng Aled Griffith ac ychwanegu'r llwybr rhwng Melin yr Wyddfa â maes parcio Rheilffordd Ffestiniog; Lôn Haearn bach a'r llwybr rhwng Bank Place â'r Happy Chop Suey House.

### 3. Cae Bodawen

Cytunwyd fod ardal Bodawen yn edrych yn dda iawn gyda'r holl fflagiau ac addurniadau a bod y cae yn edrych yn dda yn dilyn toriad diweddar. Clywyd fod y giât fawr yn simsanu oherwydd ei bod yn glynu i'r giât fach a trafodwyd ffyrdd o wella dull agor a chau y giât gan fod cyflwr y dwy giât bren yn hollol dderbyniol. Penderfynwyd "planio" rhywfaint ar y giât fach i weld os bydd hyn yn hwyluso ei agor a'i chau cyn gweithredu ymhellach. Cytunwyd mai ofer fyddai mynd i wario i wneud unrhyw welliannau i'r offer chwarae; giât; na'r ffens nes bod National Grid wedi cwblhau eu gwaith yno wedi 2025.

Clywyd fel yr oedd pobl wedi bod yn cynnal barbeciw yn y cae chwarae yn ddiweddar a thrafodwyd peryglon hyn yn ogystal ag oblygiadau cyfreithiol y Cyngor Tref i sicrhau diogelwch yr rhai sy'n defnyddio'r lle.

**Penderfynwyd :-** rhoi ystyriaeth bellach i'r mater yn y cyfarfod nesaf a'r Clerc i wirio'r polisi Yswiriant yn ôl cynnis Cyng John Gwynedd Roberts

### 4. Bryn Coffa

Caiff gohebiaeth ynglyn â symud mainc goffa o Eglwys Sant Ioan i Fryn Coffa ei gynnwys a'i drafod yng nghyfarfod llawn 12.9.23.

### 5. Cae Pawb

Clywyd fel yr oedd diwrnod agored Cae Pawb wedi bod yn llwyddiant er gwaetha'r tywydd garw ar 22.7.23. Llwyddwyd i gasglu £460 ar gyfer achosion da. Nodwyd bod rhandiroedd 19a a 33 oedd wedi peri pryderon yn ddiweddar wedi cael eu gweddnewid – rhandir 33 wedi ei rannu'n ddau a'r

tenantiaid newydd wedi llwyddo i drawsnewid y lle. Nodwyd hefyd fod y tenant oedd yn cadw gwenyn ar y safle bellach wedi eu symud oddi yno.

## 6. Llochesi Bws

Nodwyd anfolondrwydd na all swyddogion Cyngor Gwynedd lanhau toeau a landeri'r llochesi bws wrth y parc am iddynt fod yn rhy uchel i'w cyrraedd heb beiriant. Nodwyd hefyd fod llawr y lloches ar y chwith i'r ffordd ym Morfa Bychan angen ei lanhau. Cytunwyd i ofyn i gwmni Criccieth Cleaning roi sylw ychwanegol iddo pan maent yn glanhau y tro nesaf.

## 7. Cerflun Mr. Madocks

Bydd y Clerc yn cysylltu â Stephen Faherty maes o law i holi am y posibilrwydd o wella cyflwr y cerflun.

## 8. Syniadau i ddatblygu'r dref

- **Cyng Aled Griffith** :- cynnig holi am bris i adnewyddu'r baneri sydd yn hongian o bolion lamp y Stryd Fawr.

**Penderfynwyd** :- y byddai'r Clerc yn holi swyddogion Cyngor Gwynedd gan bwy a pha bryd gosodwyd y rhai presennol a byddai'r Cadeirydd, Cyng Aled Griffith yn tynnu llun pob un ohonynt erbyn y cyfarfod nesaf ; fod angen baneri mwy yn eu lle; y gellid holi cwmnïau lleol am bris i roi rhai newydd; y gellid trefnu i osod rhai newydd pan osodir y goleuadau Nadolig.

- **Diweddariad ar gynnig Cyng Gwilym Jones 25.4.23** :- Cynnig ail-ystyried comisiwn Ffion Gwyn ( 2 fwrdd gwybodaeth yn lle 4) un yn y Garth a'r llall wrth gerflun Madocks.

Nid oes caniatâd ffurfiol wedi ei dderbyn hyd yma ar gyfer gosod bwrdd gwybodaeth ar wal y Garth.

**Penderfynwyd** :- yn y cyfamser, y byddai'r Clerc yn cysylltu â Ffion Gwyn er mwyn comisiynu bwrdd gwybodaeth i'w osod ger cerflun Madocks yn gyntaf ac i wneud cais cynllunio i osod bwrdd gwybodaeth yn y lleoliad yma tra'n disgwyl am ganiatâd i fwrw 'mlaen gyda bwrdd gwybodaeth y Garth.

- **Diweddariad ar gynnig Cyng Aled Griffith 25.4.23** :- Cynnig cytuno i ddefnyddio'r cynllun cylchdaith Ardal Porthmadog a chael pris i osod byrddau alwminiwm ar bolion mewn 11 o leoliadau o amgylch y gylchdaith.

**Penderfynwyd** :- y byddai Cyng Aled Griffith yn edrych ar y mater erbyn y cyfarfod nesaf.

Nodwyd fod y Cyngor Tref wedi derbyn bron i £18k o incwm meysydd parcio 2022 ac y dylid meddwl am ffyrdd i wneud defnydd priodol o'r arian ar gyfer gwelliannau i'r dref. Clywyd fel yr oedd trefniadau ar gyfer Gŵyl Fwyd Porthmadog yn Y Traeth ar 19.8.23 yn mynd rhagddynt a nodwyd fod y Cyngor Tref yn dymuno pob llwyddiant i'r trefnwyr gan obeithio hefyd am dywydd braf ar gyfer y diwrnod. Trafodwyd y posibilrwydd o wneud gwelliannau i Gae Chwarae Bodawen trwy ofyn i National Grid i ariannu cynllun unwaith y byddant wedi gorffen eu gwaith gosod ceblau yno yn 2025. Clywyd fod cynllun o'r enw Breuddwydion Bro eisoes wedi ei baratoi rhai blynyddoedd yn ôl a cytunwyd y gellid addasu hwn ar gyfer y dyfodol.

**Penderfynwyd**:- meddwl am syniadau ar gyfer y cyfarfod nesaf a'r Clerc i yrru ymlaen i'r Cadeirydd gopi o gynllun Breuddwydion Bro.

Daeth y cyfarfod i ben am 19.50

Marian Roberts (Clerc)

26.7.23

